



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Adroddiad Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg 2014-15

Awdur: Caren Prys Jones, Swyddog Iaith

Date: 15 Mehefin 2015

Fersiwn: 1

Cyhoeddi / Dosbarthu:

- Comisiynydd y Gymraeg
- Pwyllgor y Gymraeg
- Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Y Cyhoedd (Gwefan)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (Mewnrwyd)

Dyddiad Adolygu: 31 Mawrth 2016

Diben y Ddogfen a Chrynodeb:

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau blynyddol a nodir yng Nghynllun Iaith Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Anfonir yr adroddiad hwn at Gomisiynydd y Gymraeg, yn unol â'i chyfarwydddebau.

Cytunwyd yr adroddiad hwn gan Bwyllgor Iaith Gymraeg a Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cyfeirnod Cynllun Gwaith: Cynllun Iaith Gymraeg

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i roi defnyddwyr wrth wraidd ein gwasanaethau. Rydym am sicrhau eu bod yn cael gwasanaethau sy'n briodol i'w hanghenion ac sy'n effeithiol.

Credwn fod cyfathrebu ac iaith yn elfennau craidd o wasanaeth iechyd cyhoeddus, ac felly, mae'n dilyn mai gwasanaeth effeithlon a phriodol yw gwasanaeth sy'n diwallu anghenion iaith a chyfathrebu'r sawl sy'n ei ddefnyddio. Sylweddolwn mai'r unig ffordd y gall rhai pobl gyfathrebu a chymryd rhan yn effeithiol fel partneriaid cydradd yn eu gwasanaethau yw drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn ymrwymo i ddiwallu anghenion iaith Gymraeg defnyddwyr ein gwasanaethau.

Yn 2010 cyhoeddwyd ein Cynllun Iaith Gymraeg gan ddweud ein bod yn ymrwymo i sicrhau bod sensitifrwydd i anghenion pobl o ran y Gymraeg yn cael ei adlewyrchu ym mhob rhan o'r sefydliad, i sicrhau bod ein gwasanaethau Cymraeg ar gael yn fwy helaeth a bod eu safon yn well. Mae'r Cynllun yn cynnwys ymrwymiad i fonitro gweithrediad y Cynllun, ac i gyflwyno adroddiad i Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ar ein cynnydd.

Rydym wedi llunio adroddiad cynhwysfawr mewn blynyddoedd blaenorol yn unol â gofynion Comisiynydd y Gymraeg. Eleni, gofynnodd y Comisiynydd am adroddiad cryno gan ein bod wedi cyflwyno ymateb cynhwysfawr i Ymchwiliad Safonau ym mis Chwefror. Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion diwygiedig y Comisiynydd.

2 Polisiâu a mentrau newydd a diwygiedig

- 2.1 **Nifer a chanran y polisiâu a mentrau newydd oedd yn destun asesiad effaith ieithyddol (AEI)**

Nifer	Canran
9 o 13	69%

Polisi	AEI?
Gweithio yn y cartref	Do
Cyfrinachedd	Do
Rheoli Achosion	Do
Cam-drin yn y Cartref	Do
Diogelu oedolion mewn perygl	Do
Hyfforddiant statudol a gorfodol	Naddo
Rhagofalon atal a rheoli haint er mwyn lleihau trosglwyddiad haint anadlol	Do
Rheoli haint ar gyfer polisi datblygiadau adeiladu, newid ac addasu	Naddo
Diogelwch Tân	Do
Polisi a gweithdrefn mamolaeth, mabwysiadu, absenoldeb tadolaeth a ffrwythloni in vitro	Do
Gweithdrefn camymddygiad a thwyll	Naddo
Cludo data gwybodaeth bersonol adnabyddadwy	Naddo
Strategaeth Nyrsio a Bydwreigiaeth	Do

2.2 **Enghraifft o bolisi neu fenter a ddiwygiwyd yn sgil ystyriaeth o'r effaith ieithyddol**

Cyflwynwyd Aseiad Effaith Cydraddoldeb ar fersiwn draft [Strategaeth Nyrsio a Bydwreigiaeth](http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/RaisingTheProfile%20Final%20Version%2008.05.14.pdf) <<http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/RaisingTheProfile%20Final%20Version%2008.05.14.pdf>> Iechyd Cyhoeddus Cymru. Diwygiwyd y strategaeth mewn perthynas â'r Gymraeg yn sgil yr aseiad. Mae deg thema i'r strategaeth, ac mae'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn saith ohonynt, sef:

- **Parch ac Urddas:**

'Yng nghyd-destun parch ac urddas wrth weithio gyda'r cyhoedd a chydweithwyr, ystyried agwedd ac ymddygiad, y defnydd o'r Gymraeg a dulliau cyfathrebu eraill.'

'Gweithredu cynlluniau gwella sy'n ymateb i 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well', Safon 10 Parch ac Urddas, a'r Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg.'

- **Cyfathrebu:**

'Cymryd rhan mewn sesiynau ymwybyddiaeth iaith.'

- **Datblygiad proffesiynol:**

'Cwmpasu anghenion addysg a datblygu nyrsys a bydwragedd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn datblygu rhaglenni dysgu, yn cynnwys y defnydd o sgiliau Gymraeg a dulliau cyfathrebu eraill.'

- **Cyd-gynhyrchu:**

'Fel mater o drefn, gwrando ar bobl ac ymgysylltu â hwy yn eu dewis iaith'

- **Ail-ddilysu, Gwerthuso a Goruchwylio:**

'Darparu strwythur sy'n cynnal proses i gael adborth gan y cyhoedd a chydweithwyr yn unol â'r iaith a'r cyfrwng o'u dewis, a allai hefyd fod yn ofynnol at ddibenion ail-ddilysu.'

- **Gwella Ansawdd:**

'Cynnal archwiliadau a bod yn rhagweithiol o ran ceisio barn a phrofiadau'r defnyddiwr gwasanaeth, yn eu dewis iaith, i wella ansawdd er mwyn sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn ganolog i'r gwasanaethau a ddarperir.'

- **Ymchwil a Datblygu:**

'Cynnal archwiliadau yn rheolaidd, fel rhan o gynllun gwaith strwythuredig, i ganfod a dangos arfer da a helpu i wella ansawdd gwasanaethau, yn cynnwys y defnydd o'r Gymraeg.'

Mae cynllun gweithredu'r strategaeth yn cynnwys camau gweithredu'n ymwneud â'r Gymraeg.

3 Gwasanaethau a ddarperir gan eraill

Nifer a chanran y cytundebau trydydd parti a gafodd eu monitro sy'n cydymffurfio â gofynion perthnasol y cynllun iaith Gymraeg

Ni allwn ddarparu'r data a ofynnwyd amdano gan nad yw'r trefniadau monitro perthnasol yn eu lle.

3.1 Tystiolaeth o gydymffurfiaeth trydydd parti â gofynion perthnasol y Cynllun iaith Gymraeg

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru contract gyda thrydydd parti ar gyfer marchnata cymdeithasol mewn perthynas ag atal ysmegu. Rhaid i'r contractwr reoli [Facebook <http://Facebook.com/QuitForThem>](http://Facebook.com/QuitForThem) dwyieithog ac argraffu a dosbarthu adnoddau cefnogi dwyieithog. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal cyfarfodydd gyda'r contractwr bob wythnos lle trafodir y gofynion dwyieithrwydd. Mae'r contractwr yn cydymffurfio â'r fanyleb am y Gymraeg.

4 Cyswllt wyneb yn wyneb â'r cyhoedd

4.1 Nifer a chanran y swyddi ym mhrif dderbynfeydd y sefydliad sydd wedi cael eu hadnabod fel swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol

Safle	Nifer	canran
14 Ffordd y Gadeirlan, Caerdydd	1	100%
Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd	1	100%

4.2 Nifer a chanran y swyddi mewn derbynfeydd clinigau cleifion allanol sydd wedi cael eu hadnabod fel swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol

Gwasanaeth	Nifer	Canran
Bron Brawf Cymru	0	0%

4.3 Nifer a chanran y swyddi uchod sydd wedi'u llenwi gan unigolion sy'n ateb gofynion y sgiliau iaith sydd eu hangen

Safle	Nifer	Canran
14 Ffordd y Gadeirlan, Caerdydd	0	0%
Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd	0	0%

5 Technoleg gwybodaeth

Canran o wefan y sefydliad sydd ar gael yn Gymraeg

a

Tystiolaeth ynghylch y broses a ddefnyddir i sicrhau bod cynnwys cyfredol, diweddariadau a chynnwys newydd, yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg.

Ar hyn o bryd mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru 37 gwefan; mae 22 yn gwbl ddwyieithog; 12 yn rhannol ddwyieithog, a ; 3 yn uniaith Saesneg. Mae rhai o'r gwefannau rhannol dwyieithog ac uniaith Saesneg ar gyfer gweithiwr iechyd yn hytrach nag ar gyfer aelodau'r cyhoedd. Byddwn yn ystyried a oes angen adolygu cynnwys y gwefannau hyn wrth i ni baratoi ar gyfer Safonau'r Gymraeg.

Rhestrir isod ein gwefannau ac i ba raddau y maent yn ddwyieithog. Pan nodir bod y wefan yn 100% dwyieithog, mae'r broses rheoli cynnwys yn sicrhau bod y cynnwys Cymraeg a Saesneg yn cael ei lwytho ar yr un pryd.

Gwefan a URL	% yn Gymraeg	Proses Rheoli Cynnwys / Sylwadau
Iechyd Cyhoeddus Cymru www.publichealthwales.org www.iechydcyhoedduscymru.wales.nhs.uk	85%	Newidir y cynnwys Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd fel arfer ond, o dro i dro, caiff y safle Cymraeg ei ddiweddaru yn fuan ar ôl newid y safle Saesneg.

<p>Diogelu'r Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru</p> <p>http://www.wales.nhs.uk/healthprotection</p>	0%	<p>Mae'r safle hwn ar gyfer gweithwyr iechyd yn bennaf. Mae gwefan ddwyieithog yn cael ei datblygu a bydd ar gael erbyn diwedd 2015.</p>
<p>Rhaglen Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru (WHAIP)</p> <p>http://www.wales.nhs.uk/whaip</p>	20%	<p>Daw oes y wefan hon i ben erbyn diwedd 2015 a bydd y cynnwys yn symud i'r wefan diogelu'r cyhoedd uchod a fydd yn gwbl ddwyieithog.</p>
<p>Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru</p> <p>http://www.publichealthwalesobservatory.org/ and</p> <p>http://www.arsyllfaiechydscyhoedduscymru.org/</p>	96%	<p>Symudwyd tudalennau gwe'n ymwneud a'r gwasanaeth ateb ymholiadau'n gyflym ar gyfer gofal sylfaenol (RASP) i wefan ATTRACT website. Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer Meddygon Teulu. Mae'r cynnwys yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a chaiff ei gyfieithu fel rhan o'r trefniadau. Lluniwyd cwestiynau ac atebion RASP yn unol â chanllawiau Cyfieithu cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru.</p> <p>Cyfieithir cynnwys newydd ar gyfer tudalennau gwe yn unol â'r drefn ar gyfer ychwanegu cynnwys dadansoddol i'r safle. Fel arfer, bydd unrhyw adolygiad o dudalen gwe yn adlewyrchu'r angen i newid y tudalennau cyfatebol ar y safle Cymraeg.</p> <p>Newidir y cynnwys Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd fel arfer ond, o dro i dro, caiff y safle Cymraeg ei ddiweddarau yn fuan ar ôl newid y safle Saesneg.</p>

Cofrestr a Gwasanaeth Gwybodaeth Anomaledau Cynhenid (CARIS) www.caris.wales.nhs.uk	99%	Newidir y cynnwys Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd fel arfer ond, o dro i dro, caiff y safle Cymraeg ei ddiweddarau yn fuan ar ôl newid y safle Saesneg.
Uned Gwybodaeth a Gwylidwriaeth Canser Cymru (WCISU) www.wcisu.wales.nhs.uk	100%	
Sgrinio Cyn Geni Cymru www.antenatalscreening.wales.nhs.uk www.screeningservices.org/asw/	100%	
Sgrinio Coluddion Cymru www.bowelscreeningwales.org.uk www.screeningservices.org	100%	
Bron Brawf Cymru www.breasttestwales.wales.nhs.uk www.screeningservices.org	100%	
Sgrinio Serfigol Cymru www.cervicalscreeningwales.wales.nhs.uk www.screeningservices.org/csw	100%	
Sgrinio Clyw Babanod Cymru www.newbornhearingscreening.wales.nhs.uk www.screeningservices.org	100%	
Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Abdomenol Aortig Cymru www.aaascreening.wales.nhs.uk www.screeningservices.org	100%	
Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru	100%	

www.newbornbloodspotscreening.wales.nhs.uk www.screeningservices.org		
Dim Smygu Cymru www.stopsmokingwales.com www.dimsmygucymru.com	50%	<p>Mae pob tudalen a fwriedir ar gyfer aelodau'r cyhoedd yn ddwyieithog. Fodd bynnag, ym mis Ionawr 2015 ychwanegwyd offer ar-lein uniaith Saesneg i helpu pobl i roi'r gorau i ysmegu. Bydd y fersiwn Cymraeg ar gael ym mis Mehefin 2015.</p> <p>Mae 10 tudalen uniaith Saesneg ar y safle craidd ac mae pob un ohonynt yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer gweithwyr iechyd, i annog deintyddion ac optegwyr i gyfeirio ysmygwyr i'r gwasanaeth Dim Smygu Cymru.</p> <p>Ar wahân i'r offer rhoi'r gorau i smygu ar-lein, mae'r tudalennau Cymraeg a Saesneg yn mynd yn fyw ar yr un pryd.</p>
Cyswllt Iechyd Rhywiol Cymru Gyfan www.shnwales.org.uk	100%	
Rhwydwaith Hybu Iechyd Meddwl Cymru Gyfan www.publicmentalhealth.org	100%	
Rhwydweithiau Gweithgaredd Corfforol a Maeth Cymru www.physicalactivityandnutrition.wales.org.uk/	100%	
Cyswllt HIV Cymru Gyfan www.hivnetworkwales.org.uk	100%	

Planet Health Cymru www.planethealthcymru.org	100%	
Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?OrgID=522	80%	Diweddarir y safle Cymraeg tuag wythnos ar ôl newid y safle Saesneg.
Iechyd yng Nghymru www.wales.nhs.uk	100%	
Her Iechyd Cymru www.healthchallengewales.org www.heriechydymru.org	100%	
1000 o Fywydau+ www.1000livesplus.wales.nhs.uk www.1000amwyofwydau.wales.nhs.uk	40%	Bydd safle cwbl ddwyieithog yn cael ei lansio'n ddiweddarach eleni. Yn y cyfamser rydym yn adolygu'r cynnwys Cymraeg ac yn gwneud newidiadau a diweddariadau brys.
Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd www.iqt.wales.nhs.uk	100%	
Gwobrau GIG Cymru http://www.nhswalesawards.wales.nhs.uk/home http://www.nhswalesawards.wales.nhs.uk/hafan	95%	
EppCymru http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=537 http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=537	85%	
Holi am Glotiau www.askaboutclots.co.uk	100%	
Complex Care Wales	0%	Rydym yn ystyried dyfodol y safle hwn

www.complexcarewales.org		
Pencampwyr Iechyd http://www.championsforhealth.wales.nhs.uk/home http://www.pencampwyriechyd.wales.nhs.uk/hafan	95%	
Canolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol www.equalityhumanrightswales.wales.nhs.uk	100%	
Cymru Chwareus www.friskywales.org www.cymruchwareus.org	100%	
Cymru Iach ar Waith www.healthyworkingwales.com www.cymruiacharwaith.com	100% (public area)	
Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd www.internationalhealth.wales.nhs.uk	95%	Mae angen adolygu un adran o'r wefan hon (5 tudalen)
GP 1 www.gpun.cymru.nhs.uk www.gpone.wales.nhs.uk	80%	Diweddarir y safle Saesneg yn gyntaf ac yna'r safle Cymraeg ymhen wythnos neu bythefnos ar ôl derbyn y cyfieithiad.
Sgrinio am Oes www.screeningforlife.wales.nhs.uk	100%	
Ychwanegu at Fywyd www.addtoyourlife.co.uk www.ychwaneguatfywyd.co.uk	100%	
Grŵp Cynghori Arbenigol Cenedlaethol Canser http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=322	0%	Rydym yn ystyried dyfodol y safle hwn (disgwyl y canlyniad Mehefin – Medi 2015)

6 Recriwtio

	Nifer	Canran
Swyddi a hysbysebwyd oedd yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol	10 o 264	3.8%
Swyddi a lenwyd gan unigolion oedd yn ateb y gofynion iaith a nodwyd	9 o 10	90%

O'r 264 swydd a hysbysebwyd, hysbysebwyd 254 ohonynt yn nodi bod y 'Gymraeg yn ddymunol'.

7 Sgiliau Iaith

Nifer a chanran gweithlu'r sefydliad sydd wedi cofnodi eu sgiliau ieithyddol Cymraeg ar y Cofnod Staff Electronig (ESR)

Nifer	Canran
579 (o 1475)	39%

8 Hyfforddiant Gwella Sgiliau Cymraeg

Nifer a chanran gweithlu'r sefydliad sydd wedi derbyn hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg hyd at lefel o gymhwyster penodol

Nifer	Canran
1 (Derbynnydd, 14 Ffordd y Gadeirlan, Caerdydd)	0.07%

9 Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith

9.1 Nifer a chanran gweithlu newydd y sefydliad (h.y. ers 1 Ebrill 2014) sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg

Nifer	Canran
19 o 172	11%

Mae Cyd-wasanaethau'r GIG yn gyfrifol am e-ddysgu ers mis Hydref 2014. Ddigomisiynwyd System Gweinyddu e-ddysgu'r GIG a throsglwyddwyd yr holl e-ddysgu i'r safle Learning@NHSWales. Fodd bynnag, ni throsglwyddwyd yr hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith o'r hen safle i'r safle newydd a golyga hyn, felly, na fu e-ddysgu ymwybyddiaeth iaith ar gael i Iechyd Cyhoeddus Cymru ers mis Hydref 2014.

Mae'r Cyd-wasanaethau yn bwriadu datblygu pecyn e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith Cymru gyfan. Bydd Swyddog iaith iechyd Cyhoeddus Cymru yn aelod o'r grŵp datblygu.

9.2 Nifer a chanran holl weithlu'r sefydliad sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ers cyflwyno'r Cynllun Iaith Gymraeg

Nifer	Canran
725	49%

10 Cwynion

Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg	4
---	---

11 Cyhoeddusrwydd

Tystiolaeth ynghylch y dulliau a ddefnyddiwyd i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg e.e. gwasanaethau ffôn, y wefan ayyb.

- 11.1 Mae Tîm Iechyd Cyhoeddus Hywel Dda, Dim Smygu Cymru a'r Gwasanaethau Sgrinio wedi derbyn cyflenwad o bosteri, cortynnau gwddf a bathodynau 'Cymraeg' Comisiynydd y Gymraeg. Arddangosir y posterï mewn clinigau pan fo siaradwyr Cymraeg ar ddyletsydd. Mae aelodau staff y gwasanaethau sgrinio a Dim Smygu Cymru yn gwisgo'r bathodynau a'r cortynnau gwddf.
- 11.2 Pan fo defnyddwyr gwasanaeth yn galw'r rhifau ffôn a ganlyn, y peth cyntaf a glywant ar ôl y cyfarchiad dwyieithog yw gwahoddiad i ddewis ym mha iaith y maent eisiau cael eu gwasanaeth.

Dim Smygu Cymru: 0800 085 2219

Sgrinio Coluddion Cymru: 0800 294 3370

12 Cynllunio'r Gweithlu

12.1 **Tystiolaeth o statws presennol strategaeth sgiliau iaith/dwyieithog y sefydliad**

Yn dilyn ailstrwythuro'r sefydliad a ddaeth i rym ar 1 April 2015, mae maes y Gymraeg yn rhan o bortffolio gwasanaethau y mae Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Swyddog Iaith bellach yn gyfrifol am ddatblygu'r Strategaeth Sgiliau Iaith. Dyddiad targed: Mawrth 2016.